# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Mai 7fed 2024 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Mynach.

Presennol: Dewi Pritchard (cadeirydd), Alwyn Jones, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Gwenda Evans, Rita Jones, Eifion Davies, Iolo V. Evans, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Gwenda Morris.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mawrth 6ed 2024) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant.

<u>iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.</u>
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf – **Nodwyd.**
b) Gwelliannau i'r mynwentydd – **adroddodd y clerc ei bod wedi cwrdd a swyddogion y Parc Cenedlaethol ac roeddynt yn cynnig coeden ywen a gwrychoedd ar gyfer mynwent Frongoch. Awgrymwyd y dylai'r Cyngor dorri'r coed llarwydden wrth y ffordd fawr gan fod eu cyflwr yn dirywio. Roeddynt wedi awgrymu cwmni lleol a fyddai'n gallu gwneud y gwaith yma ac roedd y clerc wedi derbyn pris ganddynt. Yn ddiweddar roedd y clerc wedi gorfod trefnu i dorri cangen un o'r coed a oedd wedi dechrau disgyn dros y ffordd fawr (taliad i Tom Edwards am y gwaith bris i'w gymeradwyo isod). Diolchwyd i Alwyn Jones am ei gymorth gyda'r gwaith brys yma. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i ail drafod torri'r yn ddiweddarach yn y flwyddyn.**

<u>v) Gohebiaeth</u>
<u>a) Partneriaeth Penllyn.</u>
i) Cynllun Trafnidiaeth Cymunedol.

<u>Cyngor Gwynedd.</u>
i) Fframwaith Adfywio Ardal Ni – Cynllun Adfywio Lleol.
ii) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd.
iii) Gwaharddiad Trafnidiaeth trwodd dros dro – Cwmtirmynach.

<u>b) Parc Cenedlaethol.</u>
i) Rhybudd cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer rheoli'r defnydd o dai preswyl.

<u>c) Un Llais Cymru.</u>
i) Contract cyflogaeth newydd i staff **– cytunwyd i'w adolygu yn nes ymlaen yn y flwyddyn.**
ii) Adroddiad Blynyddol: Amserlen Camau.

<u>ch) Amrywiol.</u>
i) Awdurdod Tan ac Achub Gogledd Cymru - lansio ymghynghoriad cyhoeddus ar barhau i atal ac ymateb i argyfyngau.
ii) Cyngor Tref Nefyn – cais am gefnogaeth.
iii) Elusen Ambiwlans Awyr Cymru – adolygiad Gwasanaeth EMRTS.

<u>v) Ceisiadau Cynllunio</u>
i) C24/0239/04/RC – Cais i ddiddymu cytundeb 106. Melin Meloch, Llanfor.
ii) C24/0179/04/TR - Llinell drydan, Llangywer. Llanfor.
**Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i wrthwynebu cais Melin Meloch gan fod y cynghorwyr yn cytuno'n gryf yn amcanion a phwrpas Cytundeb 106 ac dim yn credu y dylai gael ei diddymu.**

<u>vii) Materion Ariannol</u>
<u>a) Archwiliad Blynyddol.</u>
**Eglurodd y Clerc fod cyfrifon 2023-24 yn destun archwiliad llawn ac roedd trefniadau mewn lle i anfon y dogfennau perthnasol i'r archwilwyr mewnol ac yn ddiweddarach i Archwilio Cymru.**

b) Taliadau.
**Cytunwyd i dalu –**
**i) AJG Community Schemes (yswiriant)**
**ii) Sion Jones (torri glaswellt y mynwentydd)**
**iii) Tom Edwards (gwaith brys i dorri cangen ym mynwent Frongoch)**
**iv) Clerc (ad-daliad - meinciau i'r mynwentydd)**
**v) Noel Lloyd (adnewyddu meinciau pentref Llanfor)**

**Adroddodd y clerc fod y taliad olaf i Tom Edwards wedi cael ei wneud ym mis Ebrill (gwaith torri coed, grant Clocaenog a chafwyd ei gymeradwyo ym mis Mawrth).**

c) Ceisiadau ariannol.
St John's Ambulance, Eisteddfod Llangollen a Kids Cancer Charity **- cytunwyd i'w trafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.**

## viii) Materion lleol.

a) **Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH MEHEFIN 4YDD YN NEUADD MYNACH.**